Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith



# ADOLYGU DEDDFAU CYMDEITHASAU CYFEILLGAR 1974 AC 1992

TAFLEN FFEITHIAU I AELODAU

# EIN HYMGYNGHORIAD


| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Beth yw bwriad y papur?** | Mudiadau sy'n darparu yswiriant neu fuddion eraill i'w haelodau yw cymdeithasau cyfeillgar. Mae gan gymdeithasau cyfeillgar fodel perchnogaeth "cydfuddiannol". Mae hyn yn golygu eu bod yn eiddo i'w haelodau ac (yn bennaf) yn cael eu hariannu ganddynt, ac mae'r elw'n cael ei ail-fuddsoddi ymysg neu er budd yr aelodau. Yn wahanol i gwmnïau, does dim cyfranddalwyr na buddsoddwyr allanol. |
| **Beth rydym yn ei wneud?** | Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr adolygu'r gyfraith sy'n berthnasol i gymdeithasau cyfeillgar a gwneud argymhellion i'w moderneiddio fel y gall cymdeithasau ffynnu a pharhau i wasanaethu eu haelodau. Rydym wedi cyhoeddi papur ymgynghori gyda chynigion dros dro i ddiwygio'r gyfraith ar y sail hon. |
| **Ble mae'r papur ymgynghori llawn?** | Mae'r papur ymgynghori llawn, a chrynodeb ar wahân o'n cynigion a'n cwestiynau, ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith, https://lawcom.gov.uk/project/friendly-societies/. |
| **Gan bwy yr hoffem glywed?** | Hoffem glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y ffordd mae cymdeithasau cyfeillgar yn gweithio, gan gynnwys aelodau o gymdeithasau neu grwpiau cyfeillgar sy'n cynrychioli aelodau. |
| **Sut ydw i'n ymateb?** | A fyddech cystal ag ymateb i'r arolwg drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sydd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/law-commission/friendly-societies neu drwy e-bost i friendlies@lawcommission.gov.uk. Mae ein cyfeiriad i ymateb â chopi caled ar gael ar ein gwefan . |
| **Beth yw'r dyddiad cau?** | 11 Mehefin 2025. |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Bydd yr ymatebion i'n cynigion dros dro yn sail i'r argymhellion a wnawn i'r Llywodraeth yn ein hadroddiad terfynol. |

## Y DAFLEN FFEITHIAU HON: CYNIGION A ALLAI EFFEITHIO AR AELODAU

Yn y papur ymgynghori, rydym yn egluro cyfraith cymdeithas gyfeillgar, yn nodi rhai cynigion dros dro ar gyfer diwygio, ac yn gofyn i ymgyngoreion am eu barn ar amrywiaeth eang o bynciau.

Byddai llawer o'n cynigion yn cynnwys newidiadau technegol na fyddai'n effeithio ar aelodau'n uniongyrchol. Yn y daflen ffeithiau hon, rydym yn tynnu sylw at bynciau penodol lle gallai newidiadau posibl gael effaith ar aelodau o gymdeithasau cyfeillgar.

## Ailgofrestru neu drosi cymdeithasau sydd wedi'u cofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 (Pennod 3; Cwestiwn 2 yr ymgynghoriad)




Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf 1992 yn unig, ond mae cymdeithasau cyfeillgar hŷn yn cael eu llywodraethu gan y ddwy Ddeddf. Nid yw'n bosibl mwyach i gofrestru dan Ddeddf 1974, a dim ond hyd nes nad oes unrhyw gymdeithasau wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf y bydd yn parhau mewn grym.

Mae cael dau ddarn o ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r un mathau o gymdeithasau yn aneffeithlon, a gall fod yn ddryslyd. Hefyd, mae Deddf 1974 wedi dyddio, ond nid yw'n glir bod cyfiawnhad pendant dros wario adnoddau cyhoeddus i ddiweddaru deddfwriaeth lle mae deddfwriaeth fwy modern eisoes yn bodoli.

Nid yw pob cymdeithas sydd wedi'u cofrestru dan Ddeddf 1974 yn gymdeithasau cyfeillgar mewn gwirionedd – er enghraifft, mae rhai yn glybiau gweithwyr neu'n gymdeithasau llesiannol. Mae'n bosibl bod gan y cymdeithasau hyn fwy yn gyffredin â mathau o gymdeithas nad ydynt yn ymwneud ag yswiriant fel cymdeithasau budd cymunedol, sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ("Deddf 2014"). Gall y Ddeddf honno ddarparu fframwaith mwy addas ar gyfer y cymdeithasau hyn. Mae eisoes yn gymharol syml i'r cymdeithasau hyn ailgofrestru o dan Ddeddf 2014.

Rydym yn gofyn a ddylai fod yn ofynnol i gymdeithasau sydd wedi'u cofrestru dan Ddeddf 1974 ailgofrestru o dan ddeddfwriaeth fwy modern fel y gellir diddymu Deddf 1974 yn y pen draw.

Mae angen cydsyniad gan aelodau wrth ailgofrestru, ond nid ydym yn credu y byddai'n cael effaith negyddol ar aelodau. Byddai'r gymdeithas yn parhau â'i busnes, ond ar ffurf gorfforaethol wahanol o dan ddeddfwriaeth wahanol.

Rydym yn awgrymu dros dro y dylai fod gan gymdeithasau dair blynedd i ailgofrestru o dan Ddeddf 1992 neu Ddeddf 2014. Mae'n bosibl y bydd rhai cymdeithasau hefyd yn dewis defnyddio'r broses bresennol i newid i gwmni, fel cwmni buddiannau cymunedol. Er y byddai hyn yn rhoi baich ar gymdeithasau i ailgofrestru (ac, yn achos cymdeithasau cyfeillgar, ymgorffori) dim ond unwaith y byddai'n rhaid gwneud hyn. Byddai'n gwneud cymdeithasau'n haws i'w rhedeg a byddent yn gweithredu mewn fframwaith modern sy'n addas i'r diben.

## Rheolau cymdeithasau cyfeillgar (Pennod 3, Cwestiynau 7 i 12 yr ymgynghoriad)

Disgwylir i gymdeithasau cyfeillgar ddelio â sawl pwnc yn eu rheolau. Rydym yn ystyried y rhestr bresennol o bynciau gorfodol ac rydym yn gwneud rhai cynigion dros dro ynghylch sut gellir diweddaru'r rhestr. Er enghraifft, rydym yn cynnig y dylid cynnwys rhai pynciau er mwyn sicrhau mwy o dryloywder, fel y rheini a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau cyfeillgar nodi sut gellid dirprwyo pwerau rheoli, neu sut byddai gwrthdaro rhwng buddiannau yn cael sylw.

Ar hyn o bryd, rhaid i gymdeithasau cyfeillgar nodi yn eu rheolau y telerau ar gyfer darparu buddion i aelodau, neu rhaid iddynt nodi yn y rheolau sut y penderfynir ar y telerau. Rydym yn gofyn a oes angen diwygio mewn perthynas â phŵer cymdeithasau cyfeillgar i newid eu rheolau, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â thelerau buddion.

## Cymdeithasau sy'n darparu buddion yn ôl disgresiwn (Pennod 3, Cwestiwn 14 yr ymgynghoriad)

Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar wedi'u hawdurdodi i ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir, fel y'u gelwir, sy'n golygu eu bod yn cael eu rheoleiddio a'u goruchwylio'n ychwanegol gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus. Fel arfer, mae hyn yn golygu eu bod wedi'u hawdurdodi o dan Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol (FSMA) 2000 i ddarparu buddion yswiriant cytundebol i'w haelodau. Cymdeithasau cyfeillgar sy'n cael eu rheoleiddio yw'r enw ar hyn.

Nid yw cymdeithasau cyfeillgar eraill yn cael eu rheoleiddio fel hyn: os ydynt yn darparu buddion gwirioneddol yn ôl disgresiwn i'w haelodau, nid oes angen caniatâd arnynt o dan yr FSMA.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu mai dim ond cymdeithasau cyfeillgar sy'n cael eu rheoleiddio ddylai ddod o fewn cwmpas Deddf 1992, ac y dylai'r cymdeithasau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ailgofrestru o dan Ddeddf 2014 neu newid i fod yn gwmni. Nid ydym yn gwneud cynnig i'r perwyl hwn, ond rydym yn croesawu barn ar sut byddai'r awgrym hwn yn effeithio ar y cymdeithasau hyn a'u haelodau.

## Cofrestr aelodau (Pennod 4; Cwestiwn 15 yr ymgynghoriad)

Rydym yn gofyn a ddylai deddfwriaeth ganiatáu'n benodol i gymdeithasau cyfeillgar gadw cofrestrau electronig o enwau a chyfeiriadau eu haelodau (yn hytrach na'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at gopïau caled yn unig, a allai fod yn anodd i aelodau eu gweld ac, o bosibl, yn ddrutach i'w cadw).

## Cyfathrebu'n electronig ag aelodau (Pennod 4; Cwestiwn 16 yr ymgynghoriad)



Er nad yw aelodau'n arfer unrhyw reolaeth o ddydd i ddydd dros weithgareddau cymdeithas gyfeillgar, ymgynghorir â nhw mewn cyfarfodydd cyffredinol ar benderfyniadau a fyddai'n effeithio ar lywodraethu a busnes y gymdeithas gan mai'r aelodau yw perchnogion cymdeithas gyfeillgar.

Mae angen i gymdeithasau cyfeillgar fod yn gallu cyfathrebu â'u haelodau mewn modd effeithlon, er mwyn rhoi gwybod iddynt am gyfarfodydd, cyfleoedd pleidleisio ac ati. Gall cymdeithasau cyfeillgar eisoes gyfathrebu â'u haelodau'n electronig (er enghraifft, drwy e-bost neu wefan) os yw aelodau wedi cytuno'n benodol i hyn. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar wedi awgrymu yr hoffent gyfathrebu'n electronig yn ddiofyn – hynny yw, oni bai fod aelod yn mynegi'n benodol ei fod yn ffafrio cyfathrebu ar bapur.

Rydym yn gofyn a ddylai cymdeithasau cyfeillgar fabwysiadu dull "optio i mewn" neu "optio allan" ar gyfer cyfathrebu'n electronig. Er enghraifft, yn dilyn dull optio allan, gallai cymdeithas gyfeillgar gysylltu â phob person yn unigol i ofyn a ydynt yn cytuno i gael gohebiaeth yn electronig ac os na cheir ymateb o fewn 28 diwrnod, byddai hyn yn cael ei gymryd fel caniatâd i gael gohebiaeth yn electronig.

Rydym yn ymwybodol nad yw pob aelod yn dymuno cael gohebiaeth yn electronig, ac nid ydym yn bwriadu diwygio'r gyfraith i'w gwneud yn orfodol cyfathrebu'n electronig. Dylai aelodau bob amser gael yr opsiwn o gael cyfathrebiad ar bapur.

## Hysbysiad i alw cyfarfodydd cyffredinol (Pennod 4; Cwestiwn 18 yr ymgynghoriad)

Rhaid i gyfarfodydd gael eu trefnu a'u cynnull yn briodol, ac maent yn rhan bwysig o lywodraethu cymdeithasau cyfeillgar a hwyluso cyfathrebu ag aelodau. Rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o gyfarfodydd i aelodau. Daw'r cyfnod hysbysu i ben ar y dyddiad y cynhelir y cyfarfod, ac eithrio pan ganiateir pleidleisio drwy ddirprwy. Ystyr pleidleisio drwy ddirprwy yw pan fydd person yn dewis rhywun arall i bleidleisio yn ei le neu ar ei ran.

Os caniateir pleidleisio drwy ddirprwy mewn cyfarfod, daw'r cyfnod hysbysu i ben ar ba bynnag ddyddiad fydd y cynharaf a bennir yn rheolau'r gymdeithas gyfeillgar ar gyfer cael penodiadau drwy ddirprwy. Rydym yn credu y gellid symleiddio'r rheolau hyn ar gyfnodau hysbysu i alw cyfarfodydd.

Rydym yn cynnig y dylai cyfnodau hysbysu ar gyfer cyfarfodydd ddod i ben ar y dyddiad y cynhelir y cyfarfod, ni waeth a ganiateir pleidleisio drwy ddirprwy ac a oes dyddiad cau cynharach ar gyfer cael penodiad drwy ddirprwy.



## Penderfyniadau arbennig (Pennod 4; Cwestiwn 19 yr ymgynghoriad)

Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar yn gweithredu ar yr egwyddor o “un aelod, un bleidlais”. Mae cymdeithasau cyfeillgar eraill yn defnyddio system o bleidlais gan gynrychiolwyr, sef pan fydd cangen o gymdeithas gyfeillgar yn ethol aelod (neu aelodau) i fynychu cyfarfodydd a phleidleisio ar faterion penodol.

Ystyr penderfyniad arbennig yw penderfyniad gan gymdeithas gyfeillgar sy'n gofyn am ganran uchel o aelodau sy'n pleidleisio (75%) i bleidleisio o blaid.

Ar hyn o bryd, ni chaniateir pleidleisio drwy ddirprwy mewn cyfarfodydd lle bydd cynadleddwyr yn pleidleisio ar benderfyniadau arbennig.

Rydym yn gofyn a ddylid caniatáu i gymdeithasau cyfeillgar, lle bydd cynadleddwyr yn pleidleisio, benodi dirprwyon i bleidleisio ar benderfyniadau arbennig.

## Cymhwysedd i fod yn aelod o’r pwyllgor (Pennod 4; Cwestiwn 26 yr ymgynghoriad)

Nid yw pobl dan 18 oed yn gymwys i gael eu hethol i bwyllgor rheoli cymdeithas gyfeillgar (y cyfeirir ato weithiau fel y “bwrdd”). Gall pobl dros oedran penodol (70 oed fel arfer) gael eu hethol ar yr amod eu bod wedi cael eu cymeradwyo fel rhai cymwys drwy benderfyniad gan y pwyllgor presennol. At hynny, rhaid hysbysu pawb sydd â hawl i bleidleisio o oedran y person a'r rhesymau pam mae'r pwyllgor yn cymeradwyo ei enwebiad i gael ei ethol yn aelod o'r pwyllgor. Ac yn 70 oed, rhaid i aelodau’r pwyllgor sy’n eistedd ddatgan eu hoedran ac ymddeol o’r pwyllgor. Hefyd, dim ond os bodlonir amodau penodol y gellir eu hailethol.

Rydym yn gofyn a ddylid newid y meini prawf cymhwysedd hyn sy’n seiliedig ar oedran ar gyfer aelodau’r pwyllgor. Rydym hefyd yn gofyn a ddylid cyflwyno unrhyw feini prawf cymhwysedd newydd.

## Cloi asedau (Pennod 6; Cwestiynau 40 i 41 yr ymgynghoriad)

Mae “cloi asedau” yn diogelu asedau cymdeithas gyfeillgar rhag cael eu “cyfnewid am arian” a’u defnyddio er budd preifat, yn hytrach nag er budd y gymdeithas. Mae cloi asedau yn ffordd o atal pobl rhag dadgydfuddiannu. Ystyr dadgydfuddiannu yw pan fydd cymdeithas gyfeillgar yn colli, neu’n dewis ildio, ei statws cyffredin drwy newid ei model perchnogaeth. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu nad yw’r mudiad bellach yn cael ei gynnal gan ei aelodau er eu budd eu hunain, ond gan reolwyr yn bennaf er budd buddsoddwyr allanol.

Mae cloi asedau yn sicrhau mai dim ond at ddibenion penodol y gall mudiad ddefnyddio ei asedau: mae’n ceisio atal unigolion (gan gynnwys aelodau) rhag elwa o ddosbarthu nifer fawr o’r asedau a gyfrannwyd gan genedlaethau blaenorol o aelodau yn gyfnewid am bleidleisio o blaid dadgydfuddiannu. Gall cloi asedau godi cwestiynau anodd ar gyfer treth a rheoleiddio, felly er y gallai cymdeithasau cyfeillgar yn gyffredinol fod yn gefnogol o fesurau i amddiffyn rhag dadgydfuddiannu, gallai'r rhain fod yn anodd eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Rydym yn gofyn am fanteision ac anfanteision posibl cloi asedau ar gyfer cymdeithasau cyfeillgar, yn ogystal â safbwyntiau ar heriau posibl.



## Trosglwyddo ymgysylltiadau busnesau (Pennod 8, Cwestiynau'r ymgynghoriad {50 i 53})

Ar hyn o bryd, mae'r drefn ar gyfer trosglwyddo busnes cymdeithas gyfeillgar i gymdeithas neu gwmni cyfeillgar arall yn gymhleth ac yn ddrud. Yn gyffredinol, mae'n cymryd llawer o amser: ystyrir bod hyd at flwyddyn yn gyffredin. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i gymdeithasau cyfeillgar gaffael busnes newydd, neu werthu rhan o'u busnes os byddai'n gwneud synnwyr i wneud hynny.

Mae'r broses drosglwyddo'n cynnwys y rheoleiddwyr (yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus os yw'r gymdeithas gyfeillgar wedi'i hawdurdodi i gyflawni gweithgareddau a reoleiddir), yn ogystal ag actiwarïaid fel arbenigwyr annibynnol. Bydd y rheoleiddwyr yn cadarnhau'r trosglwyddiad os cymerir yr holl gamau perthnasol (gan gynnwys sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i aelodau, y mae'n rhaid iddynt basio penderfyniad arbennig o blaid y trosglwyddiad) ac nad oes unrhyw sail a fyddai'n atal cadarnhad.

Rydym yn ystyried ffyrdd gwahanol o wneud y broses hon yn fwy effeithlon a chosteffeithiol.

Y broses arferol yw cael cydsyniad aelodau ar gyfer trosglwyddiadau busnesau, ond rydym yn credu dros dro y gallai fod yn ddefnyddiol galluogi rhywfaint o hyblygrwydd i gymdeithasau cyfeillgar yn hyn o beth. Er enghraifft, gallai'r gyfraith ganiatáu i dderbynnydd cymdeithas gyfeillgar, o dan amgylchiadau penodol, wneud cais i'r awdurdod priodol (yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus) am gydsyniad i gytuno i drosglwyddo heb benderfyniad arbennig gan yr aelodau. Mae hyn eisoes yn bosibl pan mai cymdeithas gyfeillgar arall fydd yr endid sy'n trosglwyddo. Rydym yn credu y byddai safoni gofynion pleidleisio, ac eithriadau posibl, yn symleiddio materion, yn enwedig lle nad yw'n ymddangos bod rheswm clir dros y gwahaniaeth. Nid dyma fyddai'r rheol gyffredinol, a byddai angen caniatâd y rheoleiddwyr. Rydym hefyd yn gofyn o dan ba amgylchiadau y dylai hyn fod yn bosibl.

Rydym hefyd yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer gwneud y broses yn fwy effeithlon, fel a ddylid cytuno ar amserlen gyda'r rheoleiddwyr, yr amgylchiadau lle mae gan y rheoleiddwyr ddisgresiwn i newid y gofynion i drosglwyddo, ac a ddylai proses symlach fod ar gael ar gyfer cymdeithasau bach neu ar gyfer cymdeithasau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio.



## Mynediad at gyfalaf (Pennod 9; Cwestiwn 55 yr ymgynghoriad)

Mae cymdeithasau cyfeillgar yn cronni arian dros ben (sy'n cynnwys cyfraniadau aelodau) dros ddegawdau. Gallant godi cyfalaf allanol drwy fenthyca yn erbyn enillion yn y dyfodol, ond nid drwy werthu cyfranddaliadau i fuddsoddwyr allanol. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar wedi dweud y byddent yn gallu ehangu eu busnesau a datblygu nwyddau newydd i'w cynnig i'w haelodau pe gallent gael gafael ar arian ychwanegol. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar am i'r gyfraith ganiatáu iddynt gael gafael ar fuddsoddiad allanol ar yr un pryd â chyfyngu ar y rheolaeth y gallai buddsoddwyr ei chael dros y gymdeithas gyfeillgar.

Nid ydym yn gwneud unrhyw gynigion dros dro i alluogi cymdeithasau i wneud hynny ar hyn o bryd, ond rydym yn nodi bod mudiadau cydfuddiannol eraill fel cymdeithasau adeiladu yn gallu gwerthu cyfranddaliadau i fuddsoddwyr.

Mae sawl ffordd o ddiogelu buddiannau aelodau yn y cyd-destunau hynny, er enghraifft drwy gyfyngu ar hawl buddsoddwr i bleidleisio ar faterion penodol a dyfarnu un bleidlais yn unig i fuddsoddwr ni waeth beth yw maint y buddsoddiad.

Rydym yn gofyn am farn ar ffyrdd newydd o alluogi cymdeithasau cyfeillgar i gael mynediad at gyfalaf allanol.

### Cyfyngiadau ar weithgarwch busnesau (Pennod 10; Cwestiynau 56 i 62 yr ymgynghoriad)

Rydym yn cynnig dros dro y dylid codi rhai cyfyngiadau presennol ar gymdeithasau cyfeillgar – er enghraifft, rhoi mwy o ryddid i gymdeithasau cyfeillgar osod eu telerau eu hunain ar gyfer rhoi benthyciadau i aelodau a diweddaru symiau presennol y benthyciadau. Ar hyn o bryd, nid yw'n gyffredin iawn i gymdeithasau cyfeillgar roi benthyciadau i aelodau hyd yn oed os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Mae rhai cymdeithasau cyfeillgar wedi dweud wrthym mai'r rheswm am hyn yw bod y symiau (hanner gwerth polisi bywyd neu hyd at £200, yn dibynnu ar y math o fenthyciad) yn rhy isel i fod yn ddefnyddiol. Mae cymdeithasau cyfeillgar eraill wedi dweud nad yw'n debygol y bydd gan eu haelodau ddiddordeb beth bynnag fo'r symiau. Ni fyddai unrhyw un o'n cynigion dros dro yn effeithio ar yr oruchwyliaeth reoleiddiol y mae cymdeithasau cyfeillgar yn ddarostyngedig iddi ar hyn o bryd, na rheoliadau a fyddai'n dod yn berthnasol pe bai symiau'r benthyciad yn cynyddu.

Rydym yn gofyn am farn ar ein cynigion dros dro i godi rhai o'r cyfyngiadau ar fusnes cymdeithasau cyfeillgar. Yn benodol, hoffem glywed gan aelodau o gymdeithasau cyfeillgar a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael benthyciadau bach drwy eu cymdeithasau cyfeillgar pe bai'r rhain yn cael eu cynnig.

### Pynciau pellach ar gyfer diwygio'r gyfraith (Pennod 12; Cwestiwn 72 yr ymgynghoriad)

Os oes meysydd diwygio eraill nad ydynt yn cael sylw yma y credwch sy'n bwysig i ni eu hystyried mewn perthynas â chymdeithasau cyfeillgar, rydym yn eich annog i ddarllen y crynodeb a'r papur ymgynghori llawn i weld a yw'r pwnc yn cael sylw yno. Os nad ydynt yn cael sylw, gallwch roi gwybod i ni am unrhyw faterion ychwanegol yr hoffech i ni eu hystyried.

### Y CAMAU NESAF

Rydym am glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn cymdeithasau cyfeillgar. Bydd eich safbwyntiau'n cael eu hystyried yn ofalus pan fyddwn ni'n penderfynu ar ein hargymhellion terfynol.

Ymatebwch erbyn 11 Mehefin 2025 i leisio eich barn.

Ewch i https://lawcom.gov.uk/project/friendly-societies/ I gael rhagor o wybodaeth.

